

Rhan 3: Argymhelliad ar gyfer Rheoli'r Safle yn Gyffredinol

Ochr arall: Adeiladwyd Castell Harlech i asio â'r brigiad creigiog lle y saif yn uchel uwchben y morfa gyda mynyddoedd Eryri yn y cefndir.

Uchod: Bellach mae grisiau a phont bren yn rhoi mynediad diogel a phriodol i ymwelwyr â'r castell.

Rhan 3: Argymhelliad ar gyfer Rheoli'r Safle yn Gyffredinol

3.1 Prosiectau

3.1.1 Gweithgarwch Cydlynu

Cyfrifoldebau

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (drwy ei hasiantaethau a'r cyrff a noddir ganddi) ac awdurdodau lleol gyfrifoldebau gweithredu mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r broses o reoli'r safle yn effeithiol yn gofyn iddynt gydlynu'r gweithrediadau hyn pan gaiff prosiectau eu nodi, eu cynllunio a'u gweithredu. Mae angen i'r broses gydlynu hon ymestyn i brosiectau datblygu a allai gael eu gweithredu neu eu cefnogi gan sefydliadau ac unigolion eraill yn y clustogfeydd (gweler para. 2.4.7 et seq.). Mae angen cydlynu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwasanaethau lleol, marchnata, addysg a darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod Safle Treftadaeth y Byd a'r gymuned leol yn cael y budd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Dylid annog y rhai sy'n gyfrifol am y prosiectau i gymryd rhan mewn cynllun cydlynu er mwyn cyflawni'r buddiannau hyn. Byddent yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros eu prosiectau eu hunain a dros gwrdd â gofynion statudol.

Cynllun Cydlynu

Nodir y cynllun arfaethedig yn Niagram 3.1.1. Nod y cynllun yw cydlynu pob math o brosiectau — cadwraeth, cyflwyno, datblygu, dehongli, rheoli'r lleoliad, hyrwyddo a chofnodi.

Dylai Cadw, yr awdurdodau lleol, ICOMOS-UK a'r asiantaethau a'r sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â Safle Treftadaeth y Byd sefydlu rhwydwaith parhaol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn. Byddent yn hysbysu'r rhwydwaith o unrhyw brosiectau newydd yn ystod y flwyddyn — a chynnal proses ymgynghori ar bob cynnig fel y bo'n briodol — fel y gellir ychwanegu'r rhain at y cofrestrau a'r disgrifiadau o'r prosiectau. Unwaith y flwyddyn byddent yn diweddaru disgrifiadau'r prosiectau yn y Cynllun Rheoli fel sail ar gyfer adolygiad blynyddol.

Dylai'r adolygiad hwn ystyried yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn erbyn y dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yn ystod adroddiadau cyfnodol ar y broses o reoli Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad. Byddai'r adolygiad hwn yn sail ar gyfer cymryd camau gweithredu pellach neu adolygu'r cynllun.

Dylid cadw'r broses o reoli'r rhwydwaith mor syml â phosibl gan ddefnyddio'r nifer lleiaf posibl o staff sydd ei angen i gynorthwyo aelodau i ymgymryd â'u gweithgareddau arferol yn effeithiol. Efallai mai Cadw, gyda'i chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r holl henebion, fyddai yn y sefyllfa orau i reoli'r rhwydwaith ar ran yr holl aelodau. Fodd bynnag, dylai pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses reoli leol o fewn ei glustogfa oherwydd byddai hyn yn disgyn o fewn ei swyddogaethau arferol.

Cysylltiadau â safleoedd eraill a ddynodwyd yn Safleoedd Treftadaeth y Byd

Mae Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y DU (LAWHF) yn fforwm ar gyfer awdurdodau lleol sydd â Safle Treftadaeth y Byd neu safle sy'n gwneud cais am statws Safle Treftadaeth y Byd yn eu hardal. Mae'r Fforwm yn ceisio codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'n hysbysu'r llywodraeth o anghenion llywodraeth leol o ran gofalu am safleoedd ac yn darparu dull o gydlynu a chyhoeddi'r profiad o reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y Deyrnas Unedig.

Diagram 3.1.1 **Gweithgarwch Cydlynu**



3.1.2 Nodi a Dosbarthu Prosiectau

Prosiectau o fewn Safle Treftadaeth y Byd
O fewn Cadw, y Prif Bensaer sy'n gyfrifol am gyflwr yr holl henebion yng ngofal y Wladwriaeth yng Nghymru a'u cadwraeth a'u datblygiad. Y Prif Bensaer hefyd yw'r Aseswr Pensaernïol ar gyfer y Bwrdd Henebion a'r Cyngor Adeiladau Hanesyddol (Gweler paragraff 2.2.2 ar gyfer swyddogaethau'r cyrff hyn).

Mae'r Prif Bensaer yn ymgynghori â swyddogion eraill ynglŷn â gwaith angenrheidiol a ph'un a ellir derbyn cynigion — yn arbennig, Prif Arolygydd Henebion ac Adeiladau Hanesyddol (parthed dilysrwydd archeolegol, hanesyddol ac artistig ac effaith y gwaith a wneir ar arwyddocâd hanesyddol) a'r Pennaeth Cyflwyno (parthed effaith cynigion ar y broses o reoli ymwelwyr ac ystadau a hyrwyddo henebion).

Mae'r Prif Arolygydd yn goruchwylio Arolygiaeth, sy'n gyfrifol am roi cyngor ar ddiogelu a rheoli henebion, yn enwedig drwy'r broses restru, cytundebau rheoli a chymorth grant. Caiff henebion rhestredig eu harolygu bob pum mlynedd.

Mae cyflwr yr henebion yn agored i adolygiad bob pum mlynedd gan y Prif Bensaer. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr adolygiad diwethaf yn *The State of the Monuments (2002)*. Gwnaethpwyd 144 o argymhellion i gadw Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd mewn cyflwr boddhaol a'i gyflwyno'n foddhaol. Rhoddwyd blaenoriaeth i bob argymhelliad — 'A' angen ar frys; 'B' angenrheidiol; neu 'C' dymunol. Mae'r gwahanol argymhellion yn amrywio o fân waith atgyweirio i waith ar ddiogelwch i gynigion ar gyfer datblygu a allai gynnwys trafodaethau gyda phartïon eraill. Felly, nid yw'n bosibl asesu maint y gwaith a wneir i'r gwahanol henebion yn ôl nifer yr argymhellion a ddangosir yn y tabl canlynol.

Heneb	Blaenoriaeth A	Blaenoriaeth B	Blaenoriaeth C	Cyfanswm
Castell Biwmares	10	28	5	43
Castell Caernarfon	3	7	2	12
Muriau Tref Caernarfon (hyd y muriau yng ngofal Cadw)	2	5	-	7
Castell Conwy	13	22	-	35
Muriau Tref Conwy	19	17	2	38
Castell Harlech	3	6	-	9
Cyfanswm	50	85	9	144

Caiff y camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â'r argymhellion hyn eu cynnwys mewn rhaglen dreigl o waith ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Cyfunir y camau gweithredu yn brosiectau ac mae 17 o brosiectau wedi'u hamserlennu ar gyfer y pedair blynedd o 2004–05 i 2007–08. Mae deuddeg o'r rhain yn ymwneud â chynnal a chadw cadwraeth; mae dau ohonynt yn brosiectau datblygu; a thri ohonynt yn ymwneud â gwaith ar ddiogelwch. Mae dau brosiect wedi'u cwblhau ac mae'r prosiectau eraill yn mynd rhagddynt.

O 1996 i 98, paratowyd cyfres o Gynlluniau Rheoli Henebion gan Cadw. Roedd y rhain yn cynnwys datganiad polisi ar gyfer pob heneb a chrynodeb o'r camau gweithredu gofynnol. Roedd y camau gweithredu gofynnol yn deillio o argymhellion gan staff a oedd yn ymwneud ag agweddau penodol ar gadwraeth a rheoli a chawsant eu hymgorffori yn y rhaglenni perthnasol, gan gynnwys y rhaglen waith a ddisgrifir uchod.

Arolygon a Darluniau Cofnodi

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r arolygon topograffig o'r henebion yn Safle Treftadaeth y Byd dros 20 mlynedd yn ôl ac mae'r rhan fwyaf ohonynt ar ffurf cynlluniau llawr daear. Roedd y cestyll o gyfnod Edward I yn cynnwys rhesi arosod o safleoedd amddiffynnol ac mae angen cynnal arolwg o'r lefelau uchaf. Ar yr un pryd, dylid diweddaru rhannau o'r cynlluniau llawr daear. Yn *The State of the Monuments (2002)* tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gofnodi cyflwr yr henebion cyn ymgymryd â gwaith cadwraeth ar raddfa fawr ac ar ôl ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Mae rhaglenni gwaith Cadw yn darparu ar gyfer cofnodi'r safle gwaith sy'n effeithio ar yr adeiladwaith hanesyddol.

Mae Tirlyfr Eiddo Cadw yn gofnod ar ffurf cynllun o fuddiannau'r Wladwriaeth yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae'n dangos rhydd-ddaliadau a phrydlesau, cytundebau cyfreithiol a hawliau ac eiddo o dan ofal. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi'r dogfennau cyfreithiol y tu ôl i'r buddiannau hyn. Mae angen cofnodi pob gweithrediad yn y tirlyfr.

Prosiectau'r Glustogfa

Gall yr awdurdod lleol ymgymryd â'i brosiectau ei hun o fewn clustogfa. Gall ymgymerwyr statudol a mentrau preifat neu gymunedol gynnal prosiectau eraill. Bydd yr awdurdodau lleol yn gallu cyfrannu gwybodaeth am brosiectau y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer ond mae'n bosibl na chânt eu hysbysu o bob prosiect a gynigir gan ymgymerwyr statudol.

Cofrestru Prosiectau

Mae'r Gofrestr Prosiectau dilynol yn rhestru'r holl brosiectau a nodir ar gyfer henebion yn Safle Treftadaeth y Byd a'u clustogfeydd. Mae'n darparu rhestr gynhwysfawr o'r gwaith a ragwelir gan Cadw ac eraill ar gyfer cyfnod nesaf y cynllun ac mae'n sail ar gyfer adolygiadau dilynol. Dosberthir y prosiectau yn ôl saith math o brosiect:

1. Cadwraeth
2. Cyflwyno
3. Datblygu
4. Dehongli
5. Lleoliad
6. Hyrwyddo
7. Cofnodion

Ategir pob cofrestr â Disgrifiadau manylach o'r prosiectau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

Chwilth: Castell Biwmares o'r awyr.

Isod: Castell a Muriau Tref Caernarfon o'r awyr.



Uchod: Castell a Muriau Tref Conwy o'r awyr.

Chwith: Castell Harlech o'r awyr (Skyscan Balloon Photography ar ran Cadw).

Pob Heneb yn Safle Treftadaeth y Byd

W3.1.2 Cofrestr y Prosiectau

Cyfeirnod	*Math*	*Crynodeb*
W1	2. Cyflwyniad	Cynyddu nifer y cynnyrch sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd sydd ar werth yn y canolfannau ymwelwyr.
W2	4. Dehongliad 6. Hyrwyddo	Cyflwyno cyfres o dywyslyfrau mewn blwch i'r henebion yn Safle Treftadaeth y Byd.
W3	5. Lleoliad	Clustogfeydd: adolygu ardaloedd a pholisïau cadwraeth cyfredol.
W4	6. Hyrwyddo	Cynyddu ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd drwy raglen ddigwyddiadau.
W5	6. Hyrwyddo	Ymchwilio i arwyddion Safle Treftadaeth y Byd.
W6	7. Cofnodion	Cyflwyno cynllun i ddiweddaru'r Tirlyfr.
W7	7. Cofnodion	Mynegeio cofnodion a chofnodi eu lleoliad.
W8	4. Dehongliad 7. Cofnodion	Ymchwilio i hanes cadwraeth 'Gwaith y Brenin yng Nghymru' yn yr 19eg ganrif a'r 20fed ganrif.
W9	5. Lleoliad 6. Hyrwyddo	Darparu cyfleusterau ar gyfer beicwyr i ymweld â Safle Treftadaeth y Byd.
W10	4. Dehongliad	Ymchwilio i brosiect addysg Safle Treftadaeth y Byd.

Prosiect

W3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Cyfeirnod y Prosiect	W1
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	2. Cyflwyniad

Amcan

Cynorthwyo ymwelwyr i ddeall bod Castell Biwmares, Castell a Muriau Tref Caernarfon, Castell a Muriau Tref Conwy a Chastell Harlech oll wedi'u cynnwys mewn un Safle Treftadaeth y Byd.

Disgrifiad

Ystyried cynyddu nifer y cynnyrch sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd sydd ar werth yn y canolfannau ymwelwyr yn y cestyll yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae dewis Cadw o'r eitemau sydd ar werth ym mhob heneb yn amodol ar amcangyfrifon cost, pris a gwerthiant ar gyfer pob eitem.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Blynyddol
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw ac elw o'r gwerthiant

Sylwadau

1. Mae logo Cadw ac enw'r heneb ar rai cofroddion sydd ar werth yn yr henebion hyn.
2. Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd wedi cyhoeddi Canllawiau ac Egwyddorion ar gyfer Defnyddio Arwyddlun Treftadaeth y Byd. Ni ddylid defnyddio'r arwyddlun ar gynnyrch nad oes iddynt fawr o werth addysgol.
3. Dylid defnyddio fersiwn Cymraeg yr arwyddlun gyda'r testun yn Saesneg, Ffrangeg a'r Gymraeg.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W2
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad 6. Hyrwyddo

Amcan

Cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall Safle Treftadaeth y Byd fel endid drwy ddod â gwybodaeth ddehongli ynghyd a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r safle.

Disgrifiad

Ystyried cynhyrchu cyfres o dywyslyfrau mewn blwch ar gyfer
Castell Biwmares;
Castell a Muriau Tref Caernarfon;
Castell a Muriau Tref Conwy;
Castell Harlech,
gydag esboniad byr o'r rheswm pam bod yr henebion hyn yn ffurfio un Safle Treftadaeth y Byd, naill ai ar y blwch neu mewn taflen a fydd yn amgaeëdig yn y blwch.
Yn amodol ar amcangyfrifon cost, pris a rhagolygon gwerthiant, sicrhau bod y gyfres hon ar werth yn yr henebion a thrwy'r post.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw a gwerthiant y cynnyrch

Sylwadau

1. Ystyrir mai'r tywyslyfrau hyn yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer ymwelwyr a'r cyhoedd. Fe'u dynodir gan symbol Treftadaeth y Byd ond mae'r rhan fwyaf o brynwyr yn eu prynu fel canllaw i heneb benodol. Gallai cyfres mewn blwch annog diddordeb ehangach.
2. Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd wedi cyhoeddi Canllawiau ac Egwyddorion ar gyfer Defnyddio Arwyddlun Treftadaeth y Byd.
3. Dylid defnyddio fersiwn Cymraeg yr arwyddlun gyda'r testun yn Saesneg, Ffrangeg a'r Gymraeg.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W3
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	5. Lleoliad

Amcan

Adolygu ardaloedd a pholisïau cadwraeth cyfredol.

Disgrifiad

Nodwyd 'clustogfa' yn cynnwys lleoliad hanfodol pob heneb yn Safle Treftadaeth y Byd yn y Cynllun Rheoli. Mae pob heneb hefyd wedi'i lleoli mewn ardal gadwraeth a ddynodwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol. Dynodwyd yr ardaloedd hyn yn dilyn gwerthusiad o ansawdd treflun pob tref a chynhelir adolygiad cyfnodol ohonynt gyda'r gofyniad i'r cymeriad gael ei werthuso. Mae eu ffiniau yn wahanol i ffiniau'r clustogfeydd.

Hwyrach y byddai'r awdurdodau cynllunio lleol am adolygu ffiniau'r ardaloedd cadwraeth a/neu geisio Cyfarwyddyd Erthygl 4 i wella'r diogelwch a roddir i leoliad yr henebion ac i ardaloedd hanesyddol y trefi perthnasol.

Caiff y clustogfeydd arfaethedig a ddangosir ar Fapiau B2.4.7, CA2.4.7, CO2.4.7 a H2.4.7 eu cyflwyno i Bwyllgor Treftadaeth y Byd i'w hardystio gyda'r Cynllun Rheoli.

Cyfrifoldeb	Awdurdod cynllunio lleol pob tref. (Cadw i gynghori pan gaiff y clustogfeydd eu hardystio gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd).

Rhaglen

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn bodoli eisoes ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Biwmares a Chonwy. (gweler Atodiadau 2.5.2 a 2.5.4 yn Rhan 2).

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W4
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	6. Hyrwyddo

Amcan

Cynyddu ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd drwy'r rhaglen ddigwyddiadau.

Disgrifiad

Mae'r rhaglen ddigwyddiadau a gynigir gan Cadw bob blwyddyn yn cynnwys digwyddiadau yn yr henebion yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r rhain yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r safle drwy ddenu ymwelwyr ychwanegol. Caiff rhai digwyddiadau eu cysylltu â digwyddiadau penodol yn hanes yr henebion (e.e. Owain Glyn Dŵr yn meddiannu Castell Harlech o 1404–09 a'i warchaeau ar Fiwmares a Chaernarfon ym 1403–04).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Blynyddol
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw ac incwm o'r digwyddiadau
Sylwadau	

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W5
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☐
Math o brosiect	6. Hyrwyddo

Amcan

Cynyddu ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd drwy arwyddion ffyrdd.

Disgrifiad

Ystyried dichonoldeb cynnwys arwyddion i Safle Treftadaeth y Byd ar arwyddion priffyrdd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth heb beryglu diogelwch.

Cyfrifoldeb

Cadw, Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau priffyrdd lleol.

Rhaglen

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

1. Mae arwyddion priffyrdd i'r trefi perthnasol yn dynodi henebion yn Safle Treftadaeth y Byd ac mae arwyddion gwyn ar wyrdd sydd â logo Cadw arnynt yn cyfeirio at yr henebion.
2. Nid oes unrhyw arwydd bod yr henebion hyn yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd.
3. Mae gan rai Safleoedd Treftadaeth y Byd arwyddion panel Safle Treftadaeth y Byd pan fydd ffyrdd dynesu yn croesi neu'n rhedeg ar hyd eu ffiniau.
4. Ni fyddai hyn yn effeithiol i'r cestyll a muriau'r trefi gan fod y ffiniau union gerllaw'r henebion. Ar arwyddion cyfeirio ar y prif ffyrdd dynesu fyddai'r lleoliad effeithiol ar gyfer gwybodaeth Safle Treftadaeth y Byd.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W6
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	7. Cofnodion

Amcan

Sicrhau y caiff y Tirlyfr ar gyfer yr henebion yn Safle Treftadaeth y Byd ei ddiweddaru.

Disgrifiad

Cyflwyno system lle caiff swyddfa llunio Cadw ei hysbysu ynghylch yr holl drafodion eiddo sy'n effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd ac y caiff cynlluniau'r tirlyfr eu newid yn unol â hynny.

Cyfrifoldeb	Cadw ac Ystadau Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw

Sylwadau

Roedd y Tirlyfr ar gyfer henebion yn Safle Treftadaeth y Byd, a gwblhawyd ym 1993–94, yn cofnodi pob trafodyn eiddo gan gynnwys trawsgludiadau, prydlesi, grantiau a gweithredoedd gwarchodaeth. Ni chofnodwyd unrhyw drafodion a gwblhawyd ers hynny.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W7
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☐
Math o brosiect	7. Cofnodion

Amcan

Sicrhau y gellir dod o hyd i holl gofnodion Safle Treftadaeth y Byd, ble bynnag y cânt eu cadw, a'u gweld.

Disgrifiad

Creu mynegai o gofnodion a'u lleoliad (Archif Cadw, Tirlyfr, Llyfrgell Ffotograffau, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yr Archifdy Gwladol, gweithredoedd ac ati).

Cyfrifoldeb	Cadw gyda chymorth gan ddeiliaid cofnodion cyhoeddus eraill.
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	

Sylwadau

Caiff cofnodion a grëwyd ar gyfer yr henebion yn Safle Treftadaeth y Byd eu cadw mewn gwahanol lefydd yn ôl eu natur a'r mynediad sydd ei angen iddynt. Caiff y rheini sydd i'w cadw'n barhaol eu trosglwyddo i leoliad adneuo a arolygir gan yr Archifdy Gwladol. Caiff y rheini sy'n ymwneud â henebion yng Nghymru eu cadw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gyffredinol ond caiff dogfennau hŷn eu cadw yn Llundain — gan yr Archifdy Gwladol yn Kew gyda rhai gweithredoedd eiddo yn St Christopher's House yn Llundain.

Cyfeirnod y Prosiect	W8
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad 7. Cofnodion

Amcan

Cofnodi a chyhoeddi hanes cadwraeth 'Gwaith y Brenin yng Nghymru' yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif.

Disgrifiad

Ymchwilio i, comisiynu a chyhoeddi hanes cadwraeth yn yr hyn a adwaenir bellach fel Safle Treftadaeth y Byd. Bydd dichonoldeb y prosiect yn dibynnu ar faint o ddeunydd ymchwil sydd ar gael, costau ac amcangyfrif o'r gwerthiant.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw a gwerthiannau (posibilrwydd o arian grant?)

Sylwadau

Gwnaed cofrestriad yr henebion fel Safle Treftadaeth y Byd yn bosibl gan yr ymchwil a wnaed gan Arnold Taylor i'w hadeiladu. Gallai eu hanes yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf fwrw goleuni ar yr ymagweddau tuag at gadwraeth a chofnod o'r modd y diogelwyd y safle ar gyfer y dyfodol.

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W9
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	5. Lleoliad 6. Hyrwyddo

Amcan

Darparu cyfleusterau ar gyfer beicwyr i storio eu beiciau a'u heiddo'n ddiogel tra'n ymweld â phob heneb ar droed.

Disgrifiad

Mae cyfyngiadau mynediad a diogelwch yn atal ymwelwyr rhag dod â'u beiciau i'r pedwar castell. Bydd y prosiect hwn yn chwilio am drefniadau amgen a fydd yn caniatáu iddynt adael eu beiciau a'u heiddo'n ddiogel yn ystod eu hymweliad.

Mae lle i storio beiciau mewn maes chwarae Cyngor Cymunedol gerllaw mynedfa Castell Harlech. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ger Castell Biwmares, Castell Caernarfon neu Gastell Conwy. Gallai'r opsiynau ar gyfer y safleoedd hyn gynnwys:

- Storio drwy drefniant gyda siop gyfagos (ee Beics Menai Cycles, 1 Cei Llechi, Caernarfon); neu
- Mewn rhesel/cypyrddau bach mewn man cyhoeddus (ee Y Maes, Caernarfon; Maes Parcio Vicerage, Conwy; Canolfan Hamdden, Biwmares).

Ym mhob achos bydd angen cytuno ar y trefniadau a bydd angen darparu ar eu cyfer gan hysbysebu hyn a darparu unrhyw arwyddion ychwanegol.

Cyfrifoldeb	Awdurdodau lleol a busnesau lleol ar y cyd â Cadw.

Rhaglen

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

- Mae Biwmares tua 5 milltir (8km) o Lwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac mae ar lwybr beicio lleol ar hyd y ffordd, wedi'i arwyddo.
- Mae Llwybr 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn mynd drwy Gaernarfon ar hyd y ffordd ond mae rhannau di-draffig i'r gogledd ac i'r de o'r dref.
- Mae Conwy ar Lwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac ar lwybrau beicio lleol ar hyd y ffordd, wedi'u harwyddo. Bwriedir gwella Llwybr 5 ar hyd Cei Conwy.
- Mae Harlech ar Lwybr 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	W10
Lleoliad	Safle Treftadaeth y Byd
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad

Amcan

Ymchwilio i brosiect addysg Safle Treftadaeth y Byd.

Disgrifiad

Mae Cadw a'r awdurdodau addysg lleol wedi dechrau ymchwilio i'r gwaith o gyflwyno astudiaethau treftadaeth y byd yn seiliedig ar Gestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd. Eisoes mae mynediad am ddim i'r pedwar castell i grwpiau addysgol a drefnir ac mae nifer o grwpiau o ysgolion lleol yn ymweld bob blwyddyn, gan ddefnyddio cyhoeddiadau Cadw ac adnoddau a gynhyrchir gan yr ysgolion.

Y cynnig yw y gellid ehangu astudiaethau treftadaeth y byd o'r sylfaen hon drwy weithio gyda Phrosiect Treftadaeth y Byd Pobl Ifanc UNESCO sy'n anelu at ysgogi ysgolion ledled y byd i gryfhau rôl addysg wrth hyrwyddo diwylliant o heddwch, goddefgarwch a dealltwriaeth ryngwladol drwy gadw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol y byd. Mae UNESCO wedi cynhyrchu pecyn adnoddau addysgol i athrawon ysgolion uwchradd yn dwyn y teitl *World Heritage in Your Hands*.

Cyfrifoldeb

Cadw ac awdurdodau addysg lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy gyda chyfranogiad posibl Canolfan Astudiaethau Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch.

Rhaglen Cam ymchwiliadol y prosiect sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

Castell Biwmares

B3.1.2 Cofrestr y Prosiectau

Cyf.	*Math*	*Crynodeb*
Prosiectau yn Safle Treftadaeth y Byd		
B01	1. Cadwraeth	Gwella'r ffos a draeniad dŵr yr arwyneb.
B02	1. Cadwraeth	Atgyweirio a chadw'r muriau allanol.
B03	1.Cadwraeth 3. Cyflwyniad	Adolygu mynediad i rodfeydd y muriau.
B04	1. Cadwraeth	Porthdy'r De: Monitro ac atgyweirio'r gwaith maen.
B05	1. Cadwraeth	Mur dwyreiniol y Ward Fewnol: atgyfnerthu'r wyneb mewnol.
B06	1. Cadwraeth	Porthdy'r Gogledd: cadwraeth y gwaith maen a gwaith diogelwch.
B07	1. Cadwraeth	Tŵr y Gogledd-orllewin: darparu bar lefel isel i'r gwardrob.
B08	1. Cadwraeth	Tŵr y De-ddwyrain: darparu bariau ychwanegol i'r gwardrob a monitro capan drws amheus y siambr.
B09	1. Cadwraeth	Tramwyfa mur y gorllewin: glanhau'r pwll; darparu ategwaith i'r capan drws a bariau ychwanegol i agoriad y gwardrob; ystyried pontio dros y Tŵr Canol.
B010	2. Cyflwyniad	Capel: mynediad newydd o Dŵr y De-ddwyrain; gorffeniad y llawr; uned oleuo a darparu sgrîn rhag colomennod.
B011	1. Cadwraeth	Tŵr y De-orllewin: monitro capan drws y llawr gwaelod.
B012	1. Cadwraeth	Ward Fewnol: cadwraeth gyffredinol – glanhau gwaith maen, glanhau a phaentio'r haearnwaith, gwarchod glaswellt treuliedig a gwella arwyddion.
B013	2. Cyflwyniad 3. Datblygiad 4. Dehongliad	Olion y Felin: ystyried cynllun ar gyfer mynediad i ymwelwyr.
B014	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad 3. Datblygiad 4. Dehongliad	Ffos: dad-siltio ar yr ochrau gorllewinol a gogleddol; ystyried dichonoldeb o ail-gloddio'r ochr ddwyreiniol.
B015	3. Datblygiad	Canolfan Ymwelwyr: darparu adeilad newydd.
B016	4. Dehongliad	Gwella'r arddangosfa.
B017	4. Dehongliad	Gwella'r dehongliad a'r arwyddion.
B018	7. Cofnodion	Cwblhau cofnodion o'r adeiladwaith hanesyddol.
Prosiectau yn y Glustogfa		
B101	5. Lleoliad	Stryd y Castell: adolygu camau lleddfu traffig i wella diogelwch heb ymyrraeth weledol annerbyniol ar Safle Treftadaeth y Byd.

B3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Cyfeirnod y Prosiect	B01
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Gwella cyflwr yr heneb.

Disgrifiad

1. Dad-siltio'r ffos a gwaredu malurion o'r doc. Blaenoriaeth A.
2. Gwirio draeniad dŵr yr arwyneb o'r maes parcio cyhoeddus a darparu ataliwr os nad oes un ar gael. Blaenoriaeth B.

Cyfrifoldeb

1. Cadw; 2. Cyfrifoldeb i'w drafod rhwng Cadw a'r awdurdod lleol.

Rhaglen	2003–06
Amcangyfrif o'r gost	£212,000
Ariannu	Cadw

Sylwadau

Mae'r ffos wedi'i siltio ac wedi llenwi â malurion ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol ac mae'r doc yn llawn sbwriel. Dylid atal dŵr yr arwyneb o'r maes parcio (*State of the Monuments* (2002)). Mae llifogydd mynych hefyd yn effeithio ar y safle er y mae'n bosibl bod hyn yn digwydd oherwydd draeniad i'r ffos o dir arall y tu allan i'r safle.

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B02
Lleoliad	Castell Biwmares Muriau Allanol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Atgyweirio a chadw mannau diffygiol y muriau allanol.

Disgrifiad

Lleoliad	Gweithred	Blaenoriaeth
Tŵr 4 (Porth ger y Môr)	Ailsefydlogi cerrig rhydd sydd wedi erydu ar lefel uchel. Ail-ddarparu mesurydd a monitor. Monitro'r garreg sydd wedi hollti yn y cornel gogledd-orllewinol. Monitro'r gwaith maen digynhaliaeth dros y cloerdwll saethau a darparu cynhaliaeth os oes ei hangen. Gwaredu a glanhau'r llystyfiant ysgafn a'r crameniad huddygl.	B
Tŵr 3; rhwng Tŵr 1 and 2; Tŵr1; Tyrrau 13 i 16	Monitro a chryfhau ategion bregus y capan drws a'r cerrig ategol sydd wedi hollti. Hefyd mae hollt dros y capan drws deheuol yn Nhŵr 1.	B
Tŵr 12 (Porth Llanfaes)	Atgyfnerthu'r corbelau sydd wedi hollti i'r gorllewin o'r fynedfa drwy ddrilio a phinio.	B
Tŵr 6 i 'Gunners Walk'	Atgyfnerthu'r capan drws sydd wedi erydu gerllaw 'Gunner's Walk'. Cynnal ac atgyweirio capan drws yr agoriad sy'n asglodi. Symud yr ardal storio i leoliad llai gweladwy. Ailosod y rheiliau a'r glwyd.	B
Tŵr 5	Atgyfnerthu'r cerrig lefel uchel sy'n asglodi.	B
Muriau allanol yn gyffredinol	Gwaredu'r llystyfiant a'r iorwg a glanhau'r gwaethaf o'r cramennu heb niweidio'r garreg (yn enwedig y wynebau dwyreiniol tuag at y parc cyhoeddus).	B

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	Cofnodwyd yr holl ddiffygion ar gynllun (*State of the Monuments* (2002)).

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B03
Lleoliad	Castell Biwmares Rhodfeydd y muriau mewnol ac allanol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth 3. Cyflwyniad

Amcan

Darparu mynediad gwell i rodfeydd y muriau mewnol ac allanol gyda chyn lleied o ymyrraeth ffisegol a gweledol â phosibl.

Disgrifiad

Adolygu'r sefyllfa bresennol a chadarnhau pa rodfeydd eraill y gellid eu hagor gan ddarparu rheiliau anymwthgar yn debyg i'r rhai ar ymyl gorllewinol rhodfa'r mur mewnol. Darparu arwyddion newydd i gyfeirio ymwelwyr i bwynt(iau) mynediad gydag arwyddion diogelwch lle y bo'n briodol (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–06 cyfnod cychwynnol ar rodfeydd y muriau allanol
Amcangyfrif o'r gost	£10,000 cyfnod cychwynnol ar rodfeydd y muriau allanol
Ariannu	Cadw

Sylwadau

Caewyd rhodfeydd y muriau oherwydd roedd y muriau canllaw isel iawn yn eu gwneud yn beryglus. Roedd y penderfyniad yn amhoblogaidd gydag ymwelwyr ac ymchwiliodd Cadw i ddulliau o ddarparu amddiffyniad heb niweidio nenlinell y castell. Bu'r rheilen ddur a osodwyd ar ymyl gorllewinol rhodfa'r mur mewnol yn llwyddiannus ond rhaid ystyried pob rhan o'r rhodfeydd o safbwynt ystyriaethau diogelwch ac estheteg.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B04
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Atgyweirio a chadw'r Porthdy Deheuol.

Disgrifiad

Monitro hollti o amgylch y fynedfa ochr (Blaenoriaeth B).

Atgyfnerthu'r capan drws sydd wedi erydu dros y cloerdwll saethau dwyreiniol (Blaenoriaeth B).

Lleihau faint o garreg a gedwir yn storfa gerrig Tŵr y Dwyrain a'i symud i Dŵr y Gorllewin. (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B05
Lleoliad	Castell Biwmares Ward Fewnol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Atgyweirio a chadw mur dwyreiniol y Ward Fewnol.

Disgrifiad

Arolygu a chynllunio gwaith atgyfnerthu i wyneb mewnol mur dwyreiniol y Ward Fewnol a gweithredu'n briodol (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Colli gwaith maen'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B06
Lleoliad	Castell Biwmares Porthdy'r Gogledd
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Monitro diffygion y gwaith maen a gwella diogelwch ym Mhorthdy'r Gogledd.

Disgrifiad

Darparu bariau ychwanegol i agoriad y gwardrob (Blaenoriaeth A); monitro'r capan drws toredig i ddrws rhodfa'r mur; monitro ac atgyweirio'r piniau colfach sy'n rhydu (Blaenoriaeth B); ac ystyried newid yr ysgol bren i rodfa'r mur am un fetel (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B07
Lleoliad	Castell Biwmares Tŵr y Gogledd-orllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Gwella diogelwch yn Nhŵr y Gogledd-orllewin.

Disgrifiad

Darparu bar diogelwch ychwanegol ar lefel isel yn agoriad y gwardrob (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B08
Lleoliad	Castell Biwmares Tŵr y De-ddwyrain
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Monitro diffygion y gwaith maen a gwella diogelwch yn Nhŵr y De-ddwyrain.

Disgrifiad

Monitro capan drws amheus y siambr (Blaenoriaeth B); a darparu bariau ychwanegol i agoriad y gwardrob (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B09
Lleoliad	Castell Biwmares Ward Fewnol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw'r gwaith maen a gwella mynediad a diogelwch y rhan orllewinol.

Disgrifiad

Glanhau sbwriel o'r pwll (Blaenoriaeth A); darparu cynhaliaeth i gapan drws y gwardrob a bariau ychwanegol i'r agoriad (Blaenoriaeth B); ac ystyried pontio tramwyfa'r mur ar draws y Tŵr Canol (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o'r gyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B010	
Lleoliad	Castell Biwmares Tŵr y Capel	
O fewn	Henebion ☑	Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth	2. Cyflwyniad

Amcan

Gwella cyflwyniad y Capel.

Disgrifiad

Capel: darparu llwybr un ffordd ar gyfer ymwelwyr i'r Capel, gyda mynediad o Dŵr y De-orllewin ac allanfa drwy risiau newydd yn Nhŵr y Gogledd-ddwyrain; gwaredu'r matiau presennol a darparu gorffeniad mwy addas i'r llawr (Blaenoriaeth B); a lleihau llygredd drwy atal colomennod, gwaredu'r ffynhonnell olau a sgrinio'r agoriadau (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Mynediad 2004–05
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Hen ddeunydd matio wedi'i staenio'; 'problem colomennod'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B011
Lleoliad	Castell Biwmares Tŵr y De-orllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan	
Cadw gwaith maen Tŵr y De-orllewin.	
Disgrifiad	
Monitro capan drws lefel y llawr sydd wedi hollti (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	O fewn amcangyfrif cyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B012
Lleoliad	Castell Biwmares Ward Fewnol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadwraeth gyffredinol o'r Ward Fewnol.

Disgrifiad

Glanhau crameniad huddygl yn nhramwyfeydd y muriau (heb achosi difrod); glanhau a phaentio'r rheiliau a bariau haearn (Blaenoriaeth A); ymestyn yr ardaloedd â matio er mwyn lleihau traul ar y dywarchen; a gwaredu arwyddion diangen ac adolygu arwyddion rhybuddion yn gyffredinol (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–05
Amcangyfrif o'r gost	Rhan o amcangyfrif cyllideb o £25,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Crameniad huddygl mewn tramwyfeydd', 'Ardaloedd o dywarchen dreuliedig'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B013
Lleoliad	Castell Biwmares Melin o fewn 'Gunner's Walk'
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	2. Cyflwyniad 3. Datblygiad 4. Dehongliad

Amcan

Cyflwyno a dehongli olion yr hen felin a llifddor o fewn 'Gunner's Walk'.

Disgrifiad

Ymchwilio i'r olion ac ystyried gwell ddehongliad o'r ardal hon gan gynnwys mynediad, diogelwch a safbwynt. Archwilio effeithiolrwydd y llifddor wrth ddraenio'r ffos ac ystyried gwelliannau (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*Monument Management Plan* (1996)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B014
Lleoliad	Castell Biwmares Ffos
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth 2.Cyflwyniad 3. Datblygiad 4. Dehongliad

Amcan

Gwella cyflwr y ffos ac ymchwilio i ddichonoldeb ail-gloddio'r ffos ar ochrau dwyreiniol y castell.

Disgrifiad

1. Dad-siltio'r rhan o'r ffos sydd yn y dŵr.
2. Ymchwilio i ddichonoldeb cloddio ac ail lenwi'r ffos ar yr ochr ddwyreiniol. Mae'r rhan hon o'r safle yn cynnwys rhan o faes chwarae cyhoeddus. Er byddai cloddio gweddill y ffos yn cwblhau lleoliad gwreiddiol y castell a helpu dealltwriaeth well o'r cynllun cyfan, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried yn cynnwys safbwynt y rhydd-ddeiliad, awdurdod lleol a'r gymuned; yr angen am weithred gwarchodaeth atodol; dichonoldeb technegol; yr effaith ar ddraeniad y tir; a'r gost.

Cyfrifoldeb	Cadw, y rhydd-ddeiliad a Chyngor Tref Biwmares
Rhaglen	Dad-siltio 2004–05
Amcangyfrif o'r gost	£250,000
Ariannu	

Sylwadau

Nodyn: er bod y rhan o'r ffos sydd heb ei chloddio o fewn ffin yr Heneb Gofrestredig, nid yw wedi ei chynnwys yn ardal gwarchodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd rhan 2 o'r prosiect hwn yn dibynnu felly ar drafodaethau rhwng y rhydd-ddeiliad, cyngor y dref a Cadw a bydd angen ymgynghori â'r gymuned ynglŷn ag unrhyw gynnig.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B015
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	3. Datblygiad

Amcan

Darparu Canolfan Ymwelwyr i gymryd lle'r Swyddfa Docynnau bresennol.

Disgrifiad

Cytuno ar gynnig gyda'r rhydd-ddeiliad ac ymgynghori â'r awdurdod lleol a'r gymuned. Cwblhau cynllun manwl ac adeiladu'r ganolfan (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Cyn-gytundeb 2005–06 Adeiladu 2006–07
Amcangyfrif o'r gost	Tua £375,000
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*Monument Management Plan* (1996) *State of the Monuments* (2002) 'Cyfleusterau annigonol i ymwelwyr'. Nodwyd dewis safle.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B016
Lleoliad	Castell Biwmares Tŵr y Capel, Ystafell Arddangos
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad

Amcan

Gwell ddehongliad drwy arddangosfa well.

Disgrifiad

Adolygu cynnwys a chyflwyniad yr arddangosfa bresennol; er mwyn darparu arddangosfa newydd. Nodyn: dylid hefyd adolygu cyflwr yr ystafell arddangos ac ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio neu waith cynnal a chadw cyn gosod unrhyw arddangosfa newydd (Blaenoriaeth C).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*Monument Management Plan* (1996): 'Gwella arddangosfa'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B017
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	2. Cyflwyniad 4. Dehongliad

Amcan

Gwella dehongliad a'r arwyddion o gwmpas ac o fewn yr heneb i gyfateb â newidiadau eraill.

Disgrifiad

Gan ystyried y cynigion ar gyfer prosiectau B3, 9, 13, 14, 15 ac 16, ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o lwybrau mynediad, arwyddion, paneli dehongli ac arwyddion diogelwch i wella profiad ymwelwyr (Blaenoriaeth B).

Nodiadau:

1. Dylid ystyried y posibilrwydd o greu llwybr mynediad ar gyfer ymwelwyr gydag anableddau (fel yn Abaty Tyndyrn) gan y gellir gweld y rhan fwyaf o'r safle o lefel y ddaear.
2. Dylid ystyried cynnwys gwybodaeth ddeongliadol i ymwelwyr sy'n cyrraedd y maes parcio fel rhan o'r prosiect hwn.

Cyfrifoldeb	Cadw (a'r awdurdod lleol ar gyfer y gwaith yn y maes parcio).
Rhaglen	Bydd angen cwblhau'r gwaith hwn fesul cyfnod er mwyn cyd-fynd â chwblhad prosiectau eraill.
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw (gyda'r posibilrwydd o gyfraniad gan yr awdurdod lleol ar gyfer y gwaith yn y maes parcio).
Sylwadau	*Monument Management Plan* (1996): 'Darparu gwybodaeth ac arwyddion llwybrau'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B018
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	7. Cofnodion

Amcan

Sicrhau bod darluniau cofnodi mesuredig y castell yn gyflawn.

Disgrifiad

1. Adolygu'r cofnodion presennol a chomisiynu arolygon i gywiro unrhyw ddiffygion; yn enwedig lefelau islawr a lefelau uwch nad ydynt wedi'u cofnodi cyn hyn o bosibl (Blaenoriaeth B).
2. Sicrhau y caiff adeiladwaith hanesyddol yn y mannau gwaith ei gofnodi'n llawn cyn ac ar ôl gwaith cadwraeth neu ddatblygiadau mawr (parhaus).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–05 Asesu cofnodion diffygiol ac amcangyfrif costau arolygon.
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002): Adran 4 'Yr Angen am Arolygon a Darluniau Cofnodi'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	B101
Lleoliad	Castell Biwmares
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	5. Lleoliad

Amcan

Gwella diogelwch cerddwyr yn Stryd y Castell heb ymyrraeth weledol annerbyniol.

Disgrifiad

Mae golwg a chymeriad hanesyddol Stryd y Castell rhwng y castell ac adeilad Llys Biwmares wedi'i wella'n sylweddol gyda newidiadau i'r pafin a chelfi'r stryd. Fodd bynnag mae llinellau gweledegd cyfyngedig yn golygu bod cerbydau dal yn peryglu cerddwyr sy'n croesi'r stryd hon.

Dylai unrhyw gamau a gymerir i wneud y stryd hon yn fwy diogel osgoi ymyrraeth weledol annerbyniol ar Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad.

Cyfrifoldeb	Cyngor Sir Ynys Môn a Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	

Sylwadau

1. Awgrymwyd croesfan i gerddwyr a reolir gan oleuadau ond byddai'r cyfarpar a ddefnyddir fel arfer yn anaddas yn y sefyllfa hon. Efallai bod esiamplau ar gael mewn llefydd eraill a fyddai'n gweddu'n well.
2. Dylid ystyried y prosiect hwn yng nghyd-destun darparu canolfan ymwelwyr (Prosiect B015).

Castell a Muriau Tref Caernarfon

CA3.1.2 Cofrestr y Prosiectau

Cyf.	*Math*	*Crynodeb*
Prosiectau yn Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon		
CA01	1. Cadwraeth	Tŵr yr Eryr: gwaith Diogelwch Cam IV.
CA02	1. Cadwraeth	Llenfur rhwng y Tŵr Du a Phorth y Frenhines: ailweithio yn allanol a phwytho hollt.
CA03	1. Cadwraeth	Tŵr y Siambrlen: ailbwyntio'r uniadau agored mewn mannau.
CA04	1. Cadwraeth	Tŵr y Frenhines: datrys y broblem lleithder yn Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.
CA05	1. Cadwraeth	Tŵr y Brenin: datrys problem mynediad dŵr ar lefel y to.
CA06	1. Cadwraeth	Tŵr y Granar: datrys problem mynediad dŵr ar lefel y to a'i ailosod os oes angen.
CA07	1. Cadwraeth	Tŵr y Granar: archwilio'r hollt yn y wyneb fewnol uchaf a'i hailbwyntio.
CA08	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad	Tŵr y Gogledd-ddwyrain: ailasesu ei gyflwr strwythurol, tynnu'r sgaffaldiau ac atgyweirio'r gwaith maen a choed cyn agor yr ystafell anhygyrch i ymwelwyr.
CA09	3. Datblygiad	Porth y Brenin: gwella mynediad i ymwelwyr, mynedfa ac ystafelloedd y staff gan gynnwys ad-drefnu'r holl ystafelloedd a gwasanaethau.
CA010	7. Cofnodion	Cofnodion cyflawn o'r adeiladwaith hanesyddol.
Muriau Tref Caernarfon		
CA101	1. Cadwraeth	Muriau Dwyreiniol rhwng Tŵr 2 a'r Porth Mawr (sydd o dan ofalaeth): ailweithio'r wyneb allanol.
CA102	1. Cadwraeth	Cadw'r muriau gorllewinol dan ofal y Wladwriaeth rhwng Tŵr 8 ac Eglwys y Santes Fair.
CA103	1. Cadwraeth	Cadw'r muriau gorllewinol dan ofal y Wladwriaeth rhwng Tŵr 9 (Porth yr Aur) a'r Castell.
CA104	1. Cadwraeth	Muriau Gorllewinol: cadwraeth y rhannau hynny o'r muriau nad ydynt o dan ofal y Wladwriaeth.
CA105	1. Cadwraeth	Eglwys y Santes Fair: cwblhau'r camau atgyweirio.
CA106	1. Cadwraeth 3. Datblygiad	Porth Mawr (Porth y Dwyrain): cadarnhau perchenogaeth; os ydy'r rhagdybiaeth o warchodaeth yn gywir, parhau i ddatblygu cynllun yn cynnwys mwy o fynediad i rodfeydd y muriau.

CA107	2. Cyflwyniad 4. Dehongliad	Adolygu trefniadau mynediad i rodfeydd y muriau.
CA108	4. Dehongliad	Darparu paneli ar y safle ar gyfer pob ardal hygyrch.
CA109	7. Cofnodion	Cwblhau cofnodion o'r gwead hanesyddol.
CA110	1. Cadwraeth 3. Datblygiad	Porth yr Aur (neu Borth y Gorllewin): atgyweirio ac adnewyddu.

Prosiectau yn y Glustogfa

CA201	5. Lleoliad	Gwella ansawdd y treflun o fewn muriau'r dref a'r ardaloedd cyfagos.
CA202	3. Datblygiad	Canolfan Menter Greadigol, Doc Fictoria.
CA203	3. Datblygiad 5. Lleoliad	Datblygiad defnydd cymysg i'r gogledd o Doc Fictoria.
CA204	3. Datblygiad 5. Lleoliad	45 angorfa ysgraff ychwanegol yn Noc Fictoria.
CA205	3. Datblygiad 5. Lleoliad	Estyniad i westy'r Black Boy, Stryd Pedwar a Chwech, Caernarfon.
CA206	1. Cadwraeth 3. Datblygiad	Plas Bowman; cynnig i ailddefnyddio adeilad adfeiliedig.
CA207	5. Lleoliad	Gwelliannau i'r Maes.

Prosiectau Eraill

CA301	4. Dehongliad 6. Hyrwyddo	Dangos pwysigrwydd strategol Caernarfon: y cyfnod Rhufeinig.

Prosiect

CA3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Cyfeirnod y Prosiect	CA01
Lleoliad	Castell Caernarfon Tŵr yr Eryr
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cwblhau gwaith diogelwch ar Dŵr yr Eryr.	
Disgrifiad Cam IV: Atgyfnerthu gwaith maen o amgylch y cloerdyllau saethau ac amnewid cerrig a darparu bariau diogelwch lle bo eu hangen.	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2003–06
Amcangyfrif o'r gost	£20,000 amcangyfrif o gyfanswm y gost
Ariannu	Cadw
Sylwadau Rhan o raglen o fesurau diogelwch mewn ardaloedd sy'n hygyrch i ymwelwyr.	

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA02
Lleoliad	Castell Caernarfon Llenfur
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan	
Cadw'r llenfur allanol rhwng y Tŵr Du a Phorth y Frenhines.	
Disgrifiad	
Ailweithio wyneb allanol y mur; atgyweirio hollt (Blaenoriaeth A).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA03
Lleoliad	Castell Caernarfon Tŵr y Siambrlen
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw Tŵr y Siambrlen.	
Disgrifiad Ailbwyntio yr uniadau agored mewn mannau(Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Cyfeirnod y Prosiect	CA04
Lleoliad	Castell Caernarfon Tŵr y Frenhines
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw tu mewn i'r Tŵr; rhan o Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.

Disgrifiad

Datrys y broblem lleithder o fewn yr Amgueddfa.

Cyfrifoldeb	Cadw, mewn ymgynghoriad â'r Amgueddfa.
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA05
Lleoliad	Castell Caernarfon Porth y Brenin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw Porth y Brenin a diogelu'r ystafelloedd o'i fewn.	
Disgrifiad Archwilio ac atgyweirio mynediad dŵr ar lefel y to (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–05
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) Cysylltiedig â Phrosiect CA09

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA06 a CA07
Lleoliad	Castell Caernarfon Tŵr y Granar
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw Tŵr y Granar.	
Disgrifiad CA06 Archwilio ac atgyweirio mynediad dŵr ar lefel y to ac ailosod y to os oes angen (Blaenoriaeth A). CA07 Archwilio hollt yn y gwaith maen yn y wyneb fewnol uchaf a'i hailbwyntio (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–07
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA08
Lleoliad	Castell Caernarfon Tŵr y Gogledd-ddwyrain
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad

Amcan

Cadw Tŵr y Gogledd-ddwyrain ac agor yr ystafell uchaf.

Disgrifiad

Ailasesu ei gyflwr strwythurol, tynnu'r sgaffaldiau ac atgyweirio'r gwaith maen cyn agor yr ystafell anhygyrch i ymwelwyr (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2005–06
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Gellid agor yr ystafell sy'n anhygyrch ar hyn o bryd er mwyn rhoi mynediad i'r cyhoedd'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA09
Lleoliad	Castell Caernarfon Porth y Brenin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	3. Datblygiad

Amcan

Gwella mynediad, y fynedfa ac ystafelloedd y staff.

Disgrifiad

Paratoi arolwg ac astudiaeth gynllunio ar gyfer mynediad o Bendeitsh, mynedfa i ymwelwyr ac ystafelloedd y staff ym Mhorth y Brenin (Blaenoriaeth B). Gweithredu'r cynllun cytûn (Blaenoriaeth C). Prosiect i gynnwys ad-drefnu'r gwasanaethau a chael gwared â gwasanaethau diangen, gwella'r draeniad a storfeydd ychwanegol. Hefyd ymchwiliad pellach i fynediad ar gyfer pobl ag anableddau a gwelliant os yn ddichonadwy.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Astudiaeth gynllunio 2005–06 Gwaith 2006–08
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw

Sylwadau

State of the Monuments (2002) 'Gwella cyfleusterau storio a chadwraethol yn gyffredinol, gan o bosibl gyfuno â chynllun i ddefnyddio adeilad ym Mhendeitsh'.

Monument Management Plan (1996) 'Os yw mynediad i'r anabl yn flaenoriaeth, mae'r defnydd o'r adeilad gyferbyn a phont fynediad yn hanfodol. Os nad yw'n flaenoriaeth, efallai fod ailosod y to a llawr Tŵr y Gorllewin ym Mhorth y Brenin yn opsiwn'. Canfuwyd nad oedd darparu pont dros Bendeitsh yn cydfynd ag anghenion mynediad i gerbydau'r gwasanaethau brys. Mae dewisiadau eraill yn parhau i gael eu hystyried.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA010
Lleoliad	Castell Caernarfon
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	7. Cofnodion

Amcan

Sicrhau bod y darluniau cofnodi mesuredig o'r castell yn gyflawn.

Disgrifiad

1. Adolygu'r cofnodion presennol a chomisiynu i gywiro unrhyw ddiffygion; yn enwedig lefelau islawr a lefelau uwch nad ydynt wedi'u cofnodi cyn hyn o bosibl (Blaenoriaeth B).
2. Sicrhau y caiff adeiladwaith hanesyddol yn y mannau gwaith ei gofnodi'n llawn cyn ac ar ôl gwaith cadwraeth neu ddatblygiadau mawr (Parhaus).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–05 Asesu cofnodion diffygiol ac amcangyfrif costau'r arolwg.
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002): Adran 4 'Yr Angen am Arolygon a Darluniau Cofnodi'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA101
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Muriau Dwyreiniol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw Muriau dwyreiniol y Dref rhwng Tŵr 2 a'r Porth Mawr.

Disgrifiad

Ailweithio'r wyneb allanol sydd o dan ofal y Wladwriaeth (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw

Sylwadau

State of the Monuments (2002) 'angen atgyfnerthu…i gynnwys sylfaen y porth'. Ansicr faint o'r mur a'r porth sydd dan ofal y Wladwriaeth; gweler Prosiect CA106.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA102
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Muriau Gorllewinol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw'r muriau gorllewinol rhwng Tŵr 8 ac Eglwys y Santes Fair.

Disgrifiad

Ailweithio'r wyneb allanol, gan gadw'r cerrig copa, twll draenio a'r bwâu wrth ei fôn (Blaenoriaeth A).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Angen atgyfnerthu ar frys'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA103
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Muriau Gorllewinol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw'r muriau gorllewinol sydd o dan ofal y Wladwriaeth rhwng Tŵr 9 (Porth yr Aur) a Phendeitsh*.

Disgrifiad

Ailbwyntio mewn mannau sydd o dan ofal y Wladwriaeth.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) * Nodyn: mae'r rhan hon o dan ofal y Wladwriaeth o ffin eiddo Cyngor Gwynedd tu fewn i'r muriau i Bendeitsh, yn cynnwys Tŵr 10.

Cyfeirnod y Prosiect	CA104
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Muriau Gorllewinol
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw'r rhannau hynny o'r muriau gorllewinol nad ydynt o dan ofal y Wladwriaeth.

Disgrifiad

Cadarnhau perchenogaeth a thrafod er mwyn cadw wynebau'r muriau gorllewinol nad ydynt o dan ofal y Wladwriaeth; hefyd cael gwared ar y waliau cydrannol diolwg a gosod rheiliau yn eu lle os ystyrir bod eu hangen.

Cyfrifoldeb	Cadw a'r perchenogion preifat (gweler y sylwadau isod).
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Gellid ystyried cymorth grant i gynorthwyo'r perchenogion i gyflawni'r amcan hwn (fel yn Eglwys y Santes Fair).

Sylwadau

Mae Clwb Cychod Hwylio Brenhinol Cymru yn berchen ar ran o'r mur ger Porth yr Aur (gweler Prosiect CA110). Landmark Trust sydd berchen ar Dŵr 8 ac mae mewn cyflwr da yn gyffredinol. Nid yw perchenogaeth y mur rhwng y promenâd ac eiddo yn Stryd yr Eglwys wedi ei chadarnhau er bod gan rai o'r eiddo hyn fynediad i'r wal, ac yn gwneud defnydd ohoni.

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA105
Lleoliad	Eglwys y Santes Fair, Stryd yr Eglwys, Caernarfon
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw adeiladwaith canoloesol yr eglwys sy'n cynnwys rhan o Furiau'r Dref.

Disgrifiad

Cam 1: Atgyweirio'r to yn cynnwys gwaith plwm, ailosod llechi, bargodion, ac ailadeiladu toau'r portsh.
Cam 2: Atgyweirio ac ailbwyntio mur canllaw'r eil ddeheuol ac ailadeiladu corff yr eglwys — bargod yr eil ddeheuol ac atgyweirio'r gwaith maen.
Cam 3: Atgyweirio'r gwaith maen a ffenestri'r eil ogleddol.
Cam 4: Ailosod y to ac atgyweirio'r gwaith maen yn Nhŵr y Gogledd-orllewin ac ailagor y grisiau.
Camau 6 a 7: Atgyweirio'r gwaith maen ac ailbwyntio Tŵr y Gogledd-orllewin a'r muriau dwyreiniol a gorllewinol.

Cyfrifoldeb	Yr Eglwys yng Nghymru.
Rhaglen	Cam 1: 1984–85 Cam 2: 1986–87 Cam 3: 1988–89 Cam 4: 1990 Camau 6 a 7: 2003–

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Yr Eglwys yng Nghymru a Grant Cadw HBC: Camau 1 a 2 — £36,938;
Cam 3 — £6,210; Cam 4 — 6,500; Camau 6 a 7 — £33,000

Sylwadau

Mae'r eglwys wedi ei hamgáu gan furiau'r dref ar yr ochrau gogleddol a gorllewinol ac yn cynnwys Tŵr y Gogledd-orllewin (Tŵr 7). Mae'r rhain o fewn Safle Treftadaeth y Byd. Mae gweddill yr eglwys o fewn y glustogfa.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA106
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Y Porth Mawr neu Borth y Dwyrain
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth 3. Datblygiad

Amcan

Cadarnhau perchenogaeth; os yw'r rhagdybiaeth o warchodaeth yn gywir, parhau i ddatblygu cynllun yn cynnwys mwy o fynediad i rodfeydd y muriau.

Disgrifiad

Bu'n rhaid atal cynllun datblygu ar gyfer y Porth oherwydd heriwyd hawl Cyngor Gwynedd i ran o'r strwythur. Mae'r trefniadau ar gyfer gwarchodaeth o dan amheuaeth felly, ac ni ellir parhau â'r gwaith cadwraeth a datblygiad hyd nes bod y mater wedi'i ddatrys (Blaenoriaeth A). Yn amodol ar y mater hwn, y bwriad yw dod o hyd i ddatblygwr i addasu'r ystafelloedd ac agor mwy o rodfeydd y muriau i'r cyhoedd. Bydd angen gwaith pellach i ddarparu mynediad diogel rhwng y porth a rhodfa'r mur sy'n hygyrch ar hyn o bryd y tu hwnt i Dŵr 4 (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw, Cyngor Gwynedd a datblygwr
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	I'w benderfynu
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) *Monument Management Plan* (1998)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA107
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	2. Cyflwyniad 4. Dehongliad

Amcan

Adolygu trefniadau mynediad i rodfeydd y muriau.

Disgrifiad

Ar hyn o bryd mae mynediad i rodfa'r mur rhwng Tyrau 6 a 4 ar gael o un o'r grisiau gwreiddiol ger Tŵr 6 yn unig. Yn gyffredinol mae'r giât wedi'i chau yn ystod oriau agor y castell oherwydd nid oes gan staff yr amser i ddadgloi a chloi'r giât. Mae'r allwedd ar gael drwy wneud cais yn y castell, ond dim ond grwpiau sy'n dilyn y daith dywysedig sy'n gwneud ymweliadau rheolaidd.

Roedd Cadw wedi gobeithio gwneud trefniadau gyda darpar ddatblygwr i ddarparu mynediad o'r Porth Mawr fel y gellid adfer ac ailagor rhodfa'r mur o Dŵr 4 i'r Porth Mawr. Fodd bynnag gohiriwyd y prosiect hwnnw (gweler CA106). Yn dibynnu ar ei gynnydd, dylid adolygu mynediad (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) *Monument Management Plan* (1998)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA108
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad

Amcan

Darparu paneli dehongli ar y safle ar gyfer pob ardal hygyrch.

Disgrifiad

Ar hyn o bryd yr unig ddehongliad ar y safle i gynorthwyo ymwelwyr i Furiau'r Dref yw dau banel dehongli — un ger y grisiau mynediad yn Nhŵr 6 ac un ger yr hen gilborth ger Tŵr yr Eryr yn y castell. Er mai dim ond rhan fach o rodfeydd y muriau sy'n hygyrch (gweler CA107), gellir gweld y rhan fwyaf o'r muriau o lefel y ddaear. Byddai'r prosiect hwn yn darparu cyfres o baneli dehongli anymwthgar i dywys ymwelwyr. Gellid eu lleoli mewn mannau arwyddocaol ar y llwybr a ddisgrifiwyd yn y tywyslyfr *Castell Caernarfon*, e.e. Stryd Twll yn y Wal, Tan y bont yn Nhŵr 2, Y Porth Mawr, Cei Banc rhwng Tyrau 4 a 6, ac yn Eglwys y Santes Fair a'r promenâd ym Mhorth yr Aur.

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*Monument Management Plan* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA109
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	7. Cofnodion

Amcan

Sicrhau bod darluniau cofnodi mesuredig Muriau'r Dref yn gyflawn.

Disgrifiad

1. Adolygu'r cofnodion presennol a chomisiynu i gywiro unrhyw ddiffygion; yn enwedig lefelau islawr a lefelau uwch nad ydynt wedi'u cofnodi cyn hyn o bosibl (Blaenoriaeth B).
2. Sicrhau y caiff adeiladwaith hanesyddol yn y mannau gwaith ei gofnodi'n llawn cyn ac ar ôl gwaith cadwraeth neu ddatblygiadau mawr (Parhaus).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	1. Cyfnod Tendr 2004
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002): Adran 4 'Yr Angen am Arolygon a Darluniau Cofnodi'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA110
Lleoliad	Muriau Tref Caernarfon Porth yr Aur neu Borth y Gorllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth 3. Datblygiad

Amcan

Atgyweirio ac adnewyddu Porth yr Aur.

Disgrifiad

Mae'r perchennog yn cynnig atgyweirio ac adnewyddu'r strwythur, yn cynnwys darparu to ar oleddf newydd wedi ei orchuddio â phlwm.

Cyfrifoldeb	Clwb Cychod Hwylio Brenhinol Cymru (Penseiri: Partneriaeth Ap Thomas).
Rhaglen	Cyhoeddwyd Cydsyniad Heneb Gofrestredig.

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

Clwb Cychod Hwylio Brenhinol Cymru sydd berchen ar Borth yr Aur, ac yn ei ddefnyddio fel eu pencadlys.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA201
Lleoliad	Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	5. Lleoliad

Amcan

Gwella ansawdd y treflun o fewn muriau'r dref a'r ardaloedd cyfagos.

Disgrifiad

Mae ansawdd treflun ardaloedd hanesyddol Caernarfon yn dibynnu ar y cynllunio a chynhaliaeth briodol o'r eiddo cyhoeddus a'r adeiladau sy'n weladwy ohono. Yn enwedig, mae angen gwella ansawdd yr ardaloedd canlynol:

- Cei Llechi (maes parcio presennol);
- Cei Llechi (o flaen swyddfeydd Ymddiriedolaeth yr Harbwr a Siop Anrhegion y Castell);
- Cei Llechi (Safle'r Ynys ac ar hyd Ffordd Santes Helen);
- Y Maes (gweler Prosiect CA27);
- Tan y Bont i Gei Banc;
- Y Promenâd;
- Rhai o'r strydoedd o fewn muriau'r dref.

Cyfrifoldeb	Partneriaeth Caernarfon.
Rhaglen	Bydd angen rhaglen fesul cyfnod.

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Cyngor Gwynedd (gyda chefnogaeth Partneriaeth Caernarfon), Awdurdod Datblygu Cymru, Cadw, a pherchenogion yr adeilad (o dan Gynllun Trefol posibl).

Sylwadau

Mae'r adroddiadau canlynol yn berthnasol:

- Cynllun a Strategaeth Cyflawni Ardal Gadwraeth;
- Traffig Canol Tref Caernarfon, Astudiaeth Amgylcheddol ac Economaidd.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA202
Lleoliad	Doc Fictoria, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	3. Datblygiad 4. Lleoliad

Amcan

Darparu Canolfan Fenter Greadigol gydag ystafelloedd stiwdio ar gyfer mentrau creadigol bach a neuadd aml-bwrpas ganolig ei maint a lle ymarfer, ynghyd â chyfleusterau a maes parcio ar gyfer y ddau ddefnydd.

Disgrifiad

Prosiect aml-ddefnydd ar ymyl y doc; deunyddiau — dur, derw gwyrdd a gwydr.

Cyfrifoldeb	Cwmni Tref Caernarfon (Pensaer: Richard Murphy Architects)
Rhaglen	2000–04
Amcangyfrif o'r gost	£4.4 miliwn
Ariannu	Cyngor Celfyddydau Cymru (Cronfa Loteri), Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Yr Undeb Ewropeiadd (Amcan I); Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cronfa Adfywio Lleol).
Sylwadau	

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA203
Lleoliad	Doc Fictoria, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	3. Datblygiad 5. Lleoliad

Amcan

Darparu cyrchfan ychwanegol i ymwelwyr a chyfle preswyl ychwanegol yng Nghaernarfon drwy adfywio'r safle 'Shell' gwag gyda datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys ardal hamdden a manwerthu a thai ar lan y dŵr.

Disgrifiad

Mae'r safle ar ben gogleddol Doc Fictoria, ac wedi ei glirio o adeiladau. Bydd y datblygiad yn wynebu Muriau'r Dref ar draws y doc i'r de ac afon Menai i'r gorllewin a'r gogledd, a bydd yn amlwg mewn golygfeydd o Gaernarfon. Oherwydd sensitifrwydd y safle, mae tîm prosiect yn gweithio ar y cynllun, gan gynnwys y datblygwr a'r pensaer, Awdurdod Datblygu Cymru, Comisiwn Dylunio Cymru a Cadw.

Cyfrifoldeb	Watkins Jones & Sons (Penseiri: Horsewood Willacy Partnership).
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Watkins Jones & Sons ac Awdurdod Datblygu Cymru.

Sylwadau

Adeiladwyd Doc Fictoria yn y 19eg ganrif i gynyddu maint y porthladd ar gyfer y diwydiant llechi a masnach gyffredinol. Datblygodd Shell terfynfa olew fach i'r gogledd o'r doc. Yn dilyn dirywiad defnydd masnachol, darparwyd sil er mwyn darparu mynediad diogel ac angorfeydd ysgraff ar gyfer cychod hamdden. Mae adeiladau gwag naill ai wedi'u clirio neu wedi'u haddasu ar gyfer defnyddiau newydd. Mae mynediad cyhoeddus ar droed i lan y dŵr felly mae gan Doc Fictoria y potensial i ddenu mwy o ymwelwyr i Gaernarfon a chynyddu ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd.

Cyfeirnod y Prosiect	CA204
Lleoliad	Doc Fictoria, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	3. Datblygiad 5.Lleoliad

Amcan

Cynyddu nifer y cychod sy'n defnyddio Doc Fictoria.

Disgrifiad

Datblygiad arfaethedig ar gyfer 45 angorfa ysgraff newydd i gynyddu capasiti angori yn y doc.

Cyfrifoldeb	Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon (?)

Rhaglen

Amcangyfrif o'r gost

Ariannu

Sylwadau

Bydd mwy o weithgaredd yn y doc yn denu ymwelwyr (boed yn berchenogion cychod ai peidio) i Gaernarfon a chynyddu ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd.

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA205
Lleoliad	Gwesty'r Black Boy, Stryd Pedwar a Chwech, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	3. Datblygiad 5. Lleoliad

Amcan

Estyniad i'r gwesty i ddarparu ystafelloedd gwely ychwanegol a chyfleusterau gwell.

Disgrifiad

Mae'r dafarn wreiddiol yn dyddio o tua 1522 ac y mae'n adeilad cofrestredig Gradd II. Darparwyd unedau ystafell wely parod tua diwedd yr 20fed ganrif sydd yn anaddas, ac mae'r gwesty yn dymuno newid hyn a darparu mwy o ystafelloedd. Mae'r safle yn gyfyng ond mewn lleoliad da o fewn muriau'r dref. Gwnaethpwyd cais am ganiatâd cynllunio ac am ganiatâd adeilad cofrestredig. Mae Cambrian Archaeological Projects yn cynnal ymchwiliad i arwyddocâd archaeolegol y safle.

Cyfrifoldeb	Welsh Historic Inns.
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Welsh Historic Inns.
Sylwadau	

Cyfeirnod y Prosiect	CA206
Lleoliad	Plas Bowman, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	1. Cadwraeth 3. Datblygiad

Amcan

Atgyweirio adeilad adfeiledig.

Disgrifiad

Mae Plas Bowman wedi bod yn adfail gwag ers tân difrifol yn 1999. Mae potential i adfer yr adeilad fel bwyty gyda swyddfeydd ar y lloriau uwch.

Cyfrifoldeb	Trosglwyddwyd perchenogaeth yr adeilad yn 2004.
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	
Sylwadau	

Prosiect

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA207
Lleoliad	Y Maes, Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☑
Math o brosiect	5. Lleoliad

Amcan

Gwella'r Maes fel rhan o leoliad hanfodol Safle Treftadaeth y Byd a'r brif fan gyhoeddus yn Ardal Gadwraeth Caernarfon.

Disgrifiad

Cynllun gan Richard Broun Associates a gymeradwywyd gan Bartneriaeth Caernarfon. Atal traffig trwodd ac ailbalmantu'r sgwâr gyda mynediad i gerddwyr ac ar gyfer gwasanaethau yn unig.

Cyfrifoldeb	Cyngor Gwynedd (gyda chefnogaeth Partneriaeth Caernarfon).
Rhaglen	I'w gadarnhau.
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	I'w gadarnhau.

Sylwadau

Rhan o brosiect mwy i wella trefniadau traffig a'r treflun o fewn muriau'r dref ac ardaloedd cyfagos (gweler CA201).

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CA301
Lleoliad	Caernarfon
O fewn	Henebion ☐ Clustogfa ☐
Math o brosiect	4. Dehongliad 6. Hyrwyddo

Amcan

Dangos pwysigrwydd strategol safle Caernarfon drwy hyrwyddo diddordeb yn ei hanes yn ystod y cyfnod Rhufeinig (70–410 OC).

Disgrifiad

Dehongli a hyrwyddo'r diddordeb yng nghyfnod y goresgyniad Rhufeinig yn seiliedig ar gaer Segontium, llwybr y ffordd Rufeinig o Deva (Caer) i Segontium a'r Hen Furiau (Hen Walia) yng Nghaernarfon. Gall y prosiect gynnwys 'llwybr' gyda phaneli neu daflenni deongliadol.

Cyfrifoldeb	O bosibl Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	

Sylwadau

Segontium oedd y gaer fwyaf gorllewinol yng Ngogledd Cymru a gall yr Hen Walia fod yn gysylltiedig â phorthladd yn rhoi mynediad i Mona (Sir Fôn). Roedd prif ffordd (rhifwyd XXVII, XVIII a XXIIII yn *Teithiau Antwn (Itinerarium Antonini))* yn rhedeg o'r gaer lengol yn Deva i Segontium. Roedd ffyrdd eraill yn rhedeg drwy fynyddoedd Eryri gyda chaerau yn Nyffryn Conwy.

Mae olion y gaer a gloddiwyd yn Segontium yng ngofal Cadw ac mae yna amgueddfa a reolir gan yr Amgueddfeydd Cenedlaethol. Mae Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio'r Hen Walia gydag arian o Cadw, a darganfuwyd cerrig milltir Rhufeinig ar hyd y ffordd.

Er nodwyd y safle fel Safle Treftadaeth y Byd oherwydd arwyddocâd cyffredinol *Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd*, mae hanes y safle mewn cyfnodau hanesyddol eraill yn cyfrannu at ddealltwriaeth o'i bwysigrwydd strategol.

Castell a Muriau Tref Conwy

CO3.1.2 Cofrestr y Prosiectau

Cyf. Prosiectau yn Safle Treftadaeth y Byd Castell Conwy | *Math* | *Crynodeb*

CO01	1. Cadwraeth	Craig y Castell: parhau â'r archwiliadau blynyddol o'r cerrig rhydd.
CO02	1. Cadwraeth	Barbican y Gorllewin: cadw'r porth allanol.
CO03	1. Cadwraeth	Tŵr y Gogledd-orllewin: ailbwyntio mewn mannau i'r dwyrain o'r fynedfa.
CO04	1. Cadwraeth	Tyrau'r Gogledd-orllewin a'r De-orllewin: archwilio draeniad yr isloriau a gosod graean i atal llifogydd.
CO05	1. Cadwraeth	Tŵr y De-orllewin: archwilio'r capan drws amheus. Cael gwared ar y llystyfiant, rheoli colomennod a glanhau'r gwardrob, newid rheilen sy'n rhydu yn y gwardrob ac ailbaentio'r holl reiliau a bariau.
CO06	1. Cadwraeth	Neuadd fawr: cadw'r lleoedd tân.
CO07	1. Cadwraeth	Tŵr y Carchar: monitro'r holltau yn y capanau drysau dros y fynedfa, ar waelod y grisiau, o dan rodfa'r mur ac yn y dramwyfa i'r gwardrob ar y llawr cyntaf.
CO08	1. Cadwraeth	Tŵr y Gegin (neu Gogydd-dy): peiriannydd i gynghori ynglŷn â sefydlogrwydd.
CO09	1. Cadwraeth	Tŵr y Gegin (neu Gogydd-dy): monitro'r holltau yn y capanau ac ar waelod y grisiau.
CO010	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad	Tŵr y Gegin (neu Gogydd-dy): diogelu giât y grisiau gyda chlo ac arwydd 'dim mynediad'.
CO011	1. Cadwraeth	Tŵr y Popty: atgyweirio'r lleoedd tân, drws mewnol y llawr daear a chapanau allanol y llawr gwaelod.
CO012	1. Cadwraeth	Tŵr y Brenin: atgyweirio a phrofi'r rhoden fellt sydd wedi torri ac sy'n rhydd.
CO013	1. Cadwraeth	Y Siambr Fawr: archwilio a monitro'r capan amheus.
CO014	1. Cadwraeth	Barbican y dwyrain: archwilio a monitro'r holltau yn y corbelau.
CO015	1. Cadwraeth	Tŵr y Capel: monitro'r hollt yn y capanau drws a'r dramwyfa ac ailbwyntio'r pwyntio gwael mewn mannau yn y rhag-gapel a'r gwardrob.
CO016	1. Cadwraeth	Tŵr y Stocdy: monitro'r capanau drysau ar bob lefel sydd wedi hollti a monitro'r capan digynhaliaeth dros lle tân y llawr cyntaf.
CO017	1. Cadwraeth	Cyffredinol: paentio'r rheiliau a'r bariau a thrin y gwaith pren, yn enwedig yn y gwardrobau.

CO018	2. Cyflwyniad 3. Datblygiad 4. Dehongliad	Ystyried creu 'Gardd y Frenhines Eleanor' ar Farbican y Dwyrain.
CO019	4. Dehongliad	Neuadd Fawr: adolygu'r paneli ar y safle ac adolygu'r dehongliad i gydfynd â'r tywyslyfr.
CO020	7. Cofnodion	Cwblhau cofnodion o'r adeiladwaith hanesyddol.

Muriau Tref Conwy

CO101	1. Cadwraeth	Muriau'r Gogledd-ddwyrain: o'r castell i Dŵr 5: torri'r llystyfiant wrth fôn y mur gan ladd y gwreiddiau fel bod angen. Ailbwyntio'r uniadau agored yn Nhŵr 5. Cwblhau ailbwyntio Tŵr 2; sefydlogi'r ddaeargell o dan y Porth Isaf; ailbwyntio mewn mannau yn cynnwys y wyneb mewnol rhwng Tyrau 4 a 5.
CO102	1. Cadwraeth	Muriau'r Gogledd-orllewin: Tyrau 5 i 13: cael gwared ar y llystyfiant a lladd y gwreiddiau. Ailbwyntio lle bo angen; monitro'r cerrig sydd wedi hollti yn Nhyrau 8 a 13.
CO103	1. Cadwraeth	Tyrau 8, 9 a 13: gwirio canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynglŷn â'r rheiliau; ychwanegu rheiliau os bydd angen a phaentio'r rheiliau lle bo angen.
CO104	1. Cadwraeth	Tŵr 9: gwirio'r defnydd o'r Tŵr a'r grisiau wrth y bwyty.
CO105	1. Cadwraeth	Tyrau 11 a 12: gwirio'r sefyllfa (caiff tu mewn y tyrau ei ddefnyddio fel gerddi gan berchenogion cyfagos).
CO106	1. Cadwraeth	Muriau'r De-orllewin: Tyrau 13 i 15: gosod rheilen siâp T er mwyn gwneud y cloerdwll saethau llydan yn ddiogel (hanner ffordd rhwng Tyrau 13 a'r Porth Uchaf); cael gwared ar y llystyfiant a lladd y gwreiddiau ar y Porth Uchaf; atgyfnerthu gwaith maen y muriau a'r tyrau.
CO107	1. Cadwraeth	Y Porth Uchaf: ailbaentio'r grisiau newydd.
CO108	1. Cadwraeth	Muriau'r De: Tŵr 18 i Borth y Felin: cael gwared ar y llystyfiant a lladd y gwreiddiau ar y muriau allanol ac ar Borth y Felin, ailbwyntio rhan uchaf Tŵr 18; monitro'r capanau sydd wedi hollti a lamineiddiad y gwaith maen ar Borth y Felin a'r holltau yn y capanau uwchben y cloerdyllau saethau.
CO109	1. Cadwraeth	Muriau'r De: Tŵr 20: monitro hollti a lamineiddiad y capanau drysau.
CO110	1. Cadwraeth	Muriau'r De: Rhwng Tyrau 20 a 21: gwirio canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i weld os oes angen bar diogelwch.
CO111	1. Cadwraeth	Tŵr 21: Trin y grisiau pren.
CO112	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad	Rhodfeydd y Muriau o Dŵr 5 i Dŵr 13: mae'r pontydd concrit a phren presennol mewn cyflwr gwael ac wedi dioddef niwed troseddol. Ailosod y rhain mewn rhaglen gam wrth gam, gan uwchraddio deunyddiau rhag fandaliaeth gan wella diogelwch.
CO113	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad	Rhodfeydd y muriau o'r Porth Uchaf i Dŵr 17: ar ôl sefydlogi creu mynediad ar gyfer ymwelwyr i rodfa'r mur drwy osod rheiliau a phontydd.

CO114	1. Cadwraeth 2. Cyflwyniad	Rhodfeydd y muriau o Dŵr 17 i 18: cyd-drafod anghenion mynediad a diogelwch gyda Network Rail (bwa sy'n dyddio o'r 19eg ganrif dros y rheilffordd); atgyfnerthu'r bwa; dyfeisio mynediad i ymwelwyr os yw hyn yn ddichonadwy.
CO115	2. Cyflwyniad 4. Dehongliad	Bydd cwblhau Prosiectau CO111 i 114 yn caniatáu i ymwelwyr gael mynediad i'r rhan fwyaf o rodfeydd y muriau. Bydd y prosiect hwn yn ystyried trefniadau mynediad a rheoli ymwelwyr, cyflwyno mesurau diogelwch a diweddaru'r dehongliadau i gyfateb i hyn.
CO116	3. Datblygiad 5. Lleoliad	Ymchwilio i ddefnydd priodol ar gyfer datblygu 'Safle'r Bandstand' i ategu Cei Conwy. Y safle hwn yw'r llwyfan bresennol y tu allan i adran Muriau'r Dref rhwng y Porth Isaf a'r tai presennol ar y cei a bydd yn rhaid i ffurf y datblygiad barchu'r muriau yn gefndir iddo.
CO117	7. Cofnodion	Cwblhau cofnodion yr adeiladwaith hanesyddol.

Prosiectau yn y Glustogfa

CO201	3. Datblygiad 5. Lleoliad	Datblygiad Cei Conwy.
CO202	3. Datblygiad 5. Lleoliad	17 o dai preifat, Bryn Castell, Conwy.

Prosiect

CO3.1.3 Disgrifiadau o'r Prosiectau

Cyfeirnod y Prosiect	CO01
Lleoliad	Castell Conwy
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan	Sicrhau sefydlogrwydd y graig a rheoli'r wyneb sy'n asglodi.
Disgrifiad	Parhau i archwilio a chyflwyno adroddiadau ar y garreg rydd bob blwyddyn; atgyfnerthu fel y bo angen.
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	Archwiliad blynyddol; atgyfnerthu fel y bo angen.
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) Gweler *para CO1.3.1, Adran 1, Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd* ynghylch hanes y broblem hon.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO02
Lleoliad	Castell Conwy Barbican y Gorllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw'r porth allanol.	
Disgrifiad Ymchwilio i sefydlogrwydd capan drws y porth allanol (Blaenoriaeth A) a morter rhydd yn nhramwyfa'r porth gan ailbwyntio mewn mannau (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO03
Lleoliad	Castell Conwy Tŵr y Gogledd-orllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw Tŵr y Gogledd-orllewin.	
Disgrifiad Ailbwyntio mewn mannau i'r dwyrain o'r fynedfa i Dŵr y Gogledd-orllewin (Blaenoriaeth C).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO04
Lleoliad	Castell Conwy Tyrau'r Gogledd-orllewin a'r De-orllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Atal difrod o lifogydd i isloriau Tyrau'r Gogledd-orllewin a'r De-orllewin.

Disgrifiad

Archwilio draeniad yr isloriau a gosod graean er mwyn atal llifogydd (Tŵr y Gogledd-orllewin Blaenoriaeth A; Tŵr y De-orllewin Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO05
Lleoliad	Castell Conwy Tŵr y De-orllewin
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw adeiladwaith Tŵr y De-orllewin.

Disgrifiad

Tŵr y De-orllewin: Archwilio'r capan drws amheus (Blaenoriaeth A). Cael gwared ar y llystyfiant, rheoli colomennod a glanhau'r gwardrob, newid y rheilen sy'n rhydu yn y gwardrob ac ailbaentio'r holl reiliau a'r bariau (Blaenoriaeth B).

Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO06
Lleoliad	Castell Conwy Y Neuadd Fawr
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan Cadw'r lleoedd tân yn y neuadd fawr.	
Disgrifiad Sefydlogi capan y lle tân a chadw gweddlun y lleoedd tân (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	2004–05
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002) 'Capanau'r lleoedd tân yn amheus/yn hollti'.

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO07
Lleoliad	Castell Conwy Tŵr y Carchar
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth
Amcan	
Cadw adeiladwaith Tŵr y Carchar.	
Disgrifiad	
Monitro'r holltau yn y capanau dros y fynedfa, ar waelod y grisiau, islaw rhodfa'r mur ac yn y dramwyfa i'r gwardrob ar y llawr cyntaf (Blaenoriaeth B).	
Cyfrifoldeb	Cadw
Rhaglen	
Amcangyfrif o'r gost	
Ariannu	Cadw
Sylwadau	*State of the Monuments* (2002)

Prosiect

Cyfeirnod y Prosiect	CO08, 09 a 010
Lleoliad	Castell Conwy Y Gegin (neu Dŵr y Gegin)
O fewn	Henebion ☑ Clustogfa ☐
Math o brosiect	1. Cadwraeth

Amcan

Cadw adeiladwaith y Gegin (neu Dŵr y Gegin).

Disgrifiad

